**EITEM AR YR AGENDA: 11**

# AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU

**21 Mehefin 2010**

## PERFFORMIAD ARIANNOL 2009-2010

**Adroddiad gan Ken Finch, Trysorydd**

## Pwrpas yr Adroddiad

1 Pwrpas yr adroddiad hwn yw darparu adolygiad i Aelodau o berfformiad ariannol yr Awdurdod ar gyfer blwyddyn ariannol 2009-10.

2 Gofyn i'r Awdurdod Tân ddirprwyo cyfrifoldeb dros gymeradwyo'r Datganiad o Gyfrifon archwiliedig i'r Pwyllgor Archwilio.

## Cyflwyniad

3 Mewn blynyddoedd blaenorol byddai Aelodau wedi derbyn y copi drafft o'r Datganiad o Gyfrifon i'w gymeradwyo yng nghyfarfod Mehefin o'r Awdurdod Tân. Fodd bynnag, oherwydd newidiadau deddfwriaethol - Rheoliadau Cyfrifon ac Archwiliadau (Diwygiad Cymru) 2010 - bellach nid oes angen i'r Awdurdod Tân gymeradwyo'r cyfrifon drafft erbyn 30 Mehefin, yn ôl y ddeddfwriaeth newydd, rhaid i'r cyfrifon gael eu "llofnodi" erbyn y dyddiad hwn gan swyddog ariannol cyfrifol. Er hynny, mae'n dal yn orfodol i'r cyfrifon archwiliedig gael eu cymeradwyo gan Aelodau erbyn 30 Medi. Fodd bynnag, oherwydd dyddiadau cyfarfodydd a bennwyd gan yr Awdurdod Tân ni fydd yn bosibl cymeradwyo'r cyfrifon erbyn y dyddiad terfyn a gofynnir i bwerau dirprwyedig gael eu rhoi i'r Pwyllgor Archwilio ysgwyddo'r cyfrifoldeb hwn.

4 Yn sgil y newidiadau y manylir arnynt uchod a'r llinell derfyn dyn ar gyfer adroddiadau ar gyfer cyfarfod fis Mehefin, ystyrid y byddai'n briodol ac ystyrlon i Aelodau dderbyn adroddiad ar weithgarwch ariannol y flwyddyn yn hytrach na Datganiad o Gyfrifon 'technegol'.

5 Mae rhan gyntaf yr adroddiad yn adolygu'r gwariant refeniw ar gyfer 2009-10 yn erbyn y gyllideb gyda dadansoddiad ariannol yn Atodiad A. Mae ail ran yr adroddiad yn cyflwyno sylwadau ar Gronfeydd wrth gefn a Darpariaethau a gedwir gan yr Awdurdod a manylir ar y newidiadau arfaethedig yn Atodiad B. Mae rhan nesaf yr adroddiad yn edrych ar y cynlluniau y rhoddwyd grantiau tuag atynt gyda dadansoddiad manwl o'r cynlluniau yn Atodiad C. Mae rhan olaf yr adroddiad yn trafod gweithgarwch cyfalaf am y flwyddyn, a rhoddir y manylion yn Atodiad D.

**Gweithgarwch Refeniw**

6 Fel y dengys y graff mae cyfran fawr o wariant y Gwasanaeth Tân ac Achub yn gysylltiedig â thâl; 72% ar gyfer 2009-10. Yn gyffredinol roedd tanwariant o £591k yn y gyllideb dâl net sy'n unol â'r amcangyfrifon a roddwyd i Aelodau yn yr adroddiadau ar y ffigyrau terfynol drwy'r flwyddyn.

7 Mae'r tanwariant ar ddiffoddwyr tân llawn amser i'w briodoli'n bennaf i'r ffaith fod y dyfarniad tâl yn llai nag y cyllidwyd ar ei gyfer - dyfarnwyd 1.25% yn erbyn cynnydd o 2.5%. Ffactor arall a gyfrannodd at y tanwariant oedd yr arian grant refeniw (bron i £300,000) a dderbyniwyd ym mis Mawrth gan y Cynulliad; roedd hyn yn talu am i bob aelod staff gweithredol yn y Gwasanaeth dderbyn hyfforddiant ar y system radio newydd.

8 Gellir hefyd briodoli'r tanwariant ar ddiffoddwyr tân wrth gefn i'r dyfarniad tâl yn erbyn y gyllideb a'r lefelau staffio is nag y darparwyd yn y gyllideb.

9 Mae Staff Gwasanaethau Llywodraeth Leol yn dangos gorwariant ar gyfer 2009-10. Mae amcangyfrif wedi'i gynnwys yn y gwariant hwn o'r 'Uwchraddio yn sgil Arfarniad Swyddi' sy'n gysylltiedig â 2009-10 gan y bydd tâl wedi'i ôl ddyddio i 1 Ebrill 2009; mae hyn yn gyfrifol am £84k o'r gorwariant. Mae gweddill y gorwariant oherwydd uwchraddio dros dro tra disgwylir yr arfarniad swyddi ac yn sgil cyflogi staff ychwanegol i wneud y prosiect hwn. Mae'r £85k sy'n weddill o'r gyllideb arfarnu swyddi wedi ei drosglwyddo i ddarpariaeth ar gyfer costau arfarnu swyddi yn y dyfodol fel y manylwyd yn y 'Model Tâl' a gymeradwywyd gan uwch swyddogion.

10 Mae'r gorwariant ar Bensiynau yn sgil talu taliadau pensiwn a thaliadau a gymudwyd i ddau ymladdwr tân wrth gefn sydd wedi ymddeol ar sail salwch yn ystod y flwyddyn ariannol hon.

11 Mae'r gost ychwanegol o dan Adeiladau, Atgyweirio a Chynnal, oherwydd y cynnydd mewn profion trydanol am resymau iechyd a diogelwch a gwariant ychwanegol y rhoddwyd grant ar ei gyfer. Mae casglu sbwriel hefyd yn dangos gorwariant o dan Adeiladau yn sgil y cynnydd yn y gost o waredu gwastraff masnachol.

12 O dan Cludiant mae'r tanwariant ar danwydd o ganlyniad i'r gostyngiad bychan mewn prisiau tanwydd o'i gymharu â llynedd (roedd amcangyfrifon y gyllideb yn seiliedig ar brisiau llynedd). Mae hyn yn gwrthbwyso'r cynnydd mewn costau cynnal a chostau rhedeg sydd wedi cynyddu oherwydd bod y gyfradd gyfnewid ryngwladol wedi achosi cynnydd yng nghostau rhannau.

13 O dan y pennawd Cyflenwadau a Gwasanaethau y prif faes tanwariant oedd costau TG a Chyfathrebu yn sgil cynnydd mewn costau trwyddedu, uwchraddio'r rhwydwaith a gwaith datblygu ar nifer o systemau. Mae'r gorwariant ar Gyflenwadau a Gwasanaethau wedi ei wrthbwyso gan arbedion mewn rhannau eraill o'r gyllideb.

14 O dan Asiantaeth mae cost glanhau adeiladau a chynnal tiroedd wedi cynyddu oherwydd y newid ym manyleb contractau glanhau a gwaith cynnal tiroedd.

15 Mae costau rheoli cyfleusterau wedi cynyddu oherwydd y gwaith ychwanegol sydd ei angen i sicrhau bod pob safle'n bodloni gofynion rheoleiddio ychwanegol. Fodd bynnag, gwrthbwysir hyn gan yr incwm a geir yn sgil ffioedd cyfalaf o ganlyniad i'r gwaith a wnaed gan yr adran ar brosiectau cyfalaf.

16 Ni sicrhawyd yr incwm a amcangyfrifid o log oherwydd y cyfraddau llog isel. Fodd bynnag mae hyn wedi ei wrthbwyso gan arbedion ar Arian Cyfalaf yn sgil llithriant ar y rhaglen gyfalaf yn 2008-09 ac arbedion ar daliadau llog yn sgil ail amserlennu dyled i'r Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus (PWLB).

17 Mae'r incwm Cynllunio at Argyfwng yn ad-daliad gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer prosiectau arbennig. Mae'r swm hwn

wedi cynyddu oherwydd sicrhawyd arian ychwanegol yn ddiweddar ar gyfer Hyfforddwr Dimensiynau Newydd.

18 Mae'r incwm o'r gwerthiant yn uwch na'r hyn y cyllidwyd ar ei gyfer yn sgil gwerthu offer dros ben oedd heb ei gynnwys yn y gyllideb.

19 Yn gyffredinol mae'r gyllideb ar gyfer y flwyddyn wedi ei rheoli'n ofalus ac adroddwyd yn flaenorol ar y rhan fwyaf o'r tanwariant er mwyn ei gymeradwyo a'i glustnodi ar gyfer cynlluniau penodol.

## Cronfeydd wrth gefn

20 O dan delerau'r Gorchymyn Cyfuniad nid oes pŵer statudol gan yr Awdurdod i gadw Cronfeydd wrth gefn. Mae deddfwriaeth bellach wedi ei phasio i ganiatáu i Awdurdodau Tân yng Nghymru gadw Cronfeydd wrth gefn a hon yw'r flwyddyn gyntaf i allu arfer hyn. Gellir diffinio Cronfa wrth gefn fel gweithred wirfoddol gan yr Awdurdod i neilltuo adnoddau ar gyfer cynlluniau yn y dyfodol.

21 Yn ystod y broses o bennu cyllideb 2010-11 roedd yr Awdurdod wedi neilltuo £128k o'r tanwariant ar gyfer cost swyddi cefnogi dros dro ychwanegol. Daeth yr arian hwn o'r disgownt a gafwyd yn sgil ail-amserlennu benthyciadau PWLB.

22 Neilltuwyd Cronfa ar gyfer nifer o gynlluniau llai, sy'n dod i gyfanswm o £63k. Cymeradwywyd y rhain gan uwch swyddogion ac maent yn cynnwys yn bennaf offer a hyfforddiant.

## Darpariaethau

23 Mae'r Awdurdod bob amser wedi gallu cadw Darpariaethau ac yn y gorffennol mae'r Archwilwyr wedi cwestiynu'n gyson y Darpariaethau sydd gan yr Awdurdod a ph'un ai a ydynt yn cydymffurfio â'r diffiniad a nodir yn FRS12. Neilltuir darpariaeth pan fo ymrwymiad presennol ar yr Awdurdod o ganlyniad i ddigwyddiad yn y gorffennol (cyfreithiol neu ddeongladwy) a'i bod yn debygol y gwneir setliad rhywbryd yn y dyfodol.

24 Yn 2008-09 neilltuwyd Darpariaeth ar gyfer ôl dâl pensiwn yn sgil taliadau anghywir. Darganfuwyd hyn pan drosglwyddwyd y gwaith o weinyddu'r cynllun i Sir Gaerfyrddin. Yn 2009-10 talwyd yr ôl dâl pensiwn o'r cyfrif refeniw felly nid oes angen y Ddarpariaeth

mwyach. Trosglwyddwyd y balans ar y Ddarpariaeth i'r Ddarpariaeth ôl Dâl i ddiffoddwyr tân wrth gefn.

25 Mae'r Awdurdod yn cadw'r Ddarpariaeth Bensiwn ar gyfer taliadau i'r gronfa bensiwn ar gyfer ymddeoliadau oherwydd salwch. Gwnaed arolwg o'r ddarpariaeth ac amcangyfrif o ofynion ar gyfer y dyfodol.

26 Crëwyd Darpariaeth ar gyfer costau arfarnu swyddi, a thrafodir y manylion ym mharagraff 9.

27 Mae trafodaethau ynghylch ôl dâl i ddiffoddwyr tân wrth gefn yn dal i barhau ond ar sail y datblygiadau diweddaraf gwnaed amcangyfrif cadarn o'r costau i'r Awdurdod. Disgwylir y bydd y costau rhwng £600k a £700k. Cynyddwyd y Ddarpariaeth Ôl Dâl i Ddiffoddwyr Tân wrth gefn i £506k i gynnwys peth o'r atebolrwydd hwn. Bydd angen dod o hyd i weddill y costau o'r arbedion yng nghyllideb refeniw 2010-11.

## Cynlluniau sy'n cael eu hariannu gan Grant

28 Mae'r Awdurdod wedi derbyn arian ar gyfer nifer o gynlluniau, yn bennaf gan Lywodraeth y Cynulliad; mae cyfanswm yr arian a gafwyd yn fwy na £2m. Roedd llawer o'r arian hwn e.e. Firelink yn daliad unwaith ac am byth ac ni gai ei dalu eto. Bydd Aelodau'n ymwybodol o nifer o'r cynlluniau a'r manteision i'r gymuned a grëwyd yn sgil eu gweithredu. Y cynlluniau mwyaf a ariennir gan y grant yw Ffenics, Ymyriadau a Thîm Atal Tanau Bwriadol. Ceir rhestr gynhwysfawr o'r cynlluniau yn Atodiad C.

## Gweithgarwch Cyfalaf

29 Pennwyd y gyllideb gyfalaf wreiddiol yn Rhagfyr 2008 ac roedd yn seiliedig ar wariant newydd ac arian a drosglwyddwyd o flynyddoedd blaenorol. Fel yr adroddwyd yn flaenorol i Aelodau mae nifer o gynlluniau wedi'u dal yn ôl fel bod yna ddigon o arian ar gyfer Gorsaf Dân Wrecsam. Yn sgil yr oedi cyn dechrau ar brosiectau Wrecsam a Llangefni roedd y gwariant yn is nag a amcanwyd yn 2010/11.

30 Mae'r rhaglen ar gyfer ailosod Tendrau Dŵr wedi bod yn destun oedi annisgwyl ond rhagdybir y bydd y rhaglen yn dal i fyny gan

fod nifer o gerbydau wedi'u harchebu a disgwylir y byddant ar gael yn 2010-11.

## ARGYMHELLION

31 Bod Aelodau'n cymeradwyo'r cam o drosglwyddo'r tanwariant i'r Cronfeydd wrth gefn a'r Darpariaethau.

32 Bod Aelodau'n dirprwyo'r cyfrifoldeb dros gymeradwyo'r Datganiadau o Gyfrifon archwiliedig i'r Pwyllgor Archwilio.